This document is also available in English

**CYNNWYS**

## ADRAN 15

**15. Rheolau Mynediad At Wybodaeth**


15.1 Cwmpas
15.2 Hawliau Ychwanegol i Wybodaeth
15.3 Hawl i fynychu cyfarfodydd
15.4 Rhybudd o Gyfarfodydd
15.5 Mynediad i'r Rhaglen ac Adroddiadau cyn y cyfarfod
15.6 Cyflenwad copïau
15.7 Mynediad i gofnodion ayyb ar ôl y cyfarfod
15.8 Papurau Cefndir
15.9 Crynodeb o Hawliau'r Cyhoedd
15.10 Eithrio Mynediad y Cyhoedd i Gyfarfodydd
15.11 Prawf Budd y Cyhoedd
15.12 Eithrio mynediad y cyhoedd i adroddiadau
15.13 Y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol
15.14 Ymgynghoriad ar Gynigion i'w Hystyried gan y Cabinet
15.15 Cofnod o Benderfyniad y Cabinet
15.16 Penderfyniadau gan Aelod Unigol o'r Cabinet
15.17 Mynediad Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i Ddogfennau
15.18 Hawliau mynediad ychwanegol i aelodau
15.19 Recordiad fideo/sain neu drosglwyddiad

## ADRAN 15 -RHEOLAU MYNEDIAD AT WYBODAETH

### 15.1 Cwmpas

Mae’r rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Safonau, Pwyllgorau Rheoleiddio Safonol, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a holl bwyllgorau eraill.

### 15.2 Hawliau Ychwanegol i Wybodaeth

Nid yw'r rheolau hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau mwy penodol i wybodaeth a allai gael eu cynnwys o fewn y Cyfansoddiad hwn neu'r gyfraith.

### 15.3 Hawl i fynychu cyfarfodydd

Gall aelodau o'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod yn amodol yn unig ar eithriadau yn y rheolau hyn.

### 15.4 Rhybudd o Gyfarfodydd

15.4.1 Oni bai bod cyfarfod yn ymgynnull ar fyr rybudd, bydd y Cyngor yn rhoi o leiaf tri diwrnod clir o rybudd o unrhyw gyfarfod drwy roi manylion o’r cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Conwy ac ar ei wefan.

15.4.2 Ble mae’r cyfarfod neu ran o’r cyfarfod yn agored i’r cyhoedd ac yn cael ei gynnal i gyd o bell, mae’n rhaid i’r rhybudd gynnwys manylion am amser y cyfarfod a sut i gael mynediad iddo.

15.4.3 Ble mae’r cyfarfod neu ran o’r cyfarfod yn agored i’r cyhoedd ac yn cael ei gynnal i gyd o bell, mae’n rhaid i’r rhybudd gynnwys manylion am amser y cyfarfod a sut i gael mynediad iddo.

15.4.4 Ble nad yw’r cyfarfod yn agored i’r cyhoedd ac yn cael ei gynnal yn rhannol o bell, neu ddim yn cael ei gynnal o bell, mae’n rhaid i’r rhybudd gynnwys manylion am amser a lleoliad y cyfarfod a’r ffaith nad yw’n agored i’r cyhoedd.

15.4.5 Ble nad yw’r cyfarfod yn agored i’r cyhoedd ac yn cael ei gynnal o bell, mae’n rhaid i’r rhybudd gynnwys manylion am amser y cyfarfod, y ffaith ei fod yn cael ei gynnal o bell yn unig a’r ffaith nad yw’n agored i’r cyhoedd.

### 15.5 Mynediad i'r Rhaglen ac Adroddiadau cyn y cyfarfod

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r rhaglen ac adroddiadau ar gael i'r cyhoedd i'w harchwilio yn y swyddfeydd dynodedig ac ar ei wefan o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Os yw eitem yn cael ei hychwanegu at y rhaglen yn ddiweddarach, mae'r rhaglen ddiwygiedig (lle caiff adroddiadau eu paratoi ar ôl i'r wŷs gael ei anfon allan, bydd y swyddog dynodedig yn sicrhau bod pob adroddiad o'r fath ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau a'i anfon at gynghorwyr) yn agored i'w harchwilio o'r amser yr ychwanegwyd yr eitem at y rhaglen.

### 15.6 Cyflenwad copïau

Bydd y Cyngor yn cyflenwi copïau o:

(a) unrhyw raglen ac adroddiadau sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd;
(b) unrhyw ddatganiadau neu fanylion pellach sy'n angenrheidiol i nodi natur yr eitemau ar y rhaglen; ac
(c) (Os bydd y Swyddog Priodol yn gweld yn dda), bydd copïau o unrhyw ddogfennau eraill a gyflenwir i gynghorwyr mewn cysylltiad ag eitem,

i unrhyw unigolyn naill ai yn electronig neu wrth dalu tâl am bostio ac unrhyw gostau argraffu a thrin eraill.

### 15.7 Mynediad i gofnodion ayyb ar ôl y cyfarfod

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau ar gael o'r canlynol am chwe blynedd ar ôl cyfarfod:

(a) cofnodion y cyfarfod a wnaed gan y Cabinet ac eithrio unrhyw ran o gofnodion trafodion pan nad oedd y cyfarfod ar agor i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei hystyried;
(b) crynodeb o unrhyw drafodion nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, lle na fyddai'r cofnodion sydd ar gael i'w harchwilio yn rhoi cofnod rhesymol deg ac ystyrlon;
(c) y rhaglen ar gyfer y cyfarfod; ac
(d) adroddiadau yn ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

### 15.8 Papurau Cefndir

(a) Rhestr o bapurau cefndir

Bydd y Swyddog yn nodi ym mhob adroddiad rhestr o'r dogfennau hynny (a elwir yn bapurau cefndir) sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad sydd yn ei f/barn yn:

(i) datgelu unrhyw ffeithiau neu faterion y mae'r adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad yn seiliedig arno; ac

(ii) y dibynnwyd arnynt i raddau sylweddol wrth baratoi'r adroddiad

ond nid ydynt yn cynnwys gwaith a gyhoeddwyd neu sy'n datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol (fel y'i diffinnir yn Rheol 15.10).

(b) Papurau cefndir i’w harchwilio gan y cyhoedd

Bydd y Cyngor yn gwneud un copi o bob un o'r dogfennau ar y rhestr o bapurau cefndir ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am bedair blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.

**15.9 Crynodeb o Hawliau’r Cyhoedd**

Crynodeb ysgrifenedig o hawliau’r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd ac archwilio a chopi o ddogfennau yn cael eu cadw ac ar gael i’r cyhoedd yn swyddfeydd y Cyngor ym Modlondeb, Conwy a’u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**15.10 Eithrio Mynediad y Cyhoedd i Gyfarfodydd**

15.10.1 Gwybodaeth Gyfrinachol - Gofyniad i Wahardd y Cyhoedd

Rhaid i'r cyhoedd gael eu gwahardd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes i'w drafod neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

15.10.2 Gwybodaeth eithriedig - Hawl i Wahardd y Cyhoedd

(a) Gellir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes i'w drafod neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

(b) Ble bydd y cyfarfod yn penderfynu ar hawliau neu rwymedigaethau sifil unrhyw un, neu effeithio’n niweidiol ar eu meddiannau, mae Erthygl 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn sefydlu rhagdybiaeth y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn gyhoeddus oni bai bod angen gwrandawiad preifat am un o'r rhesymau a nodwyd yn Erthygl 6.

15.10.3 Ystyr gwybodaeth gyfrinachol

Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i’r Cyngor gan Adran o’r Llywodraeth ar delerau sy’n gwahardd ei

ddatgelu i'r cyhoedd neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus gan Orchymyn Llys.

15.10.4 Ystyr gwybodaeth eithriedig

Mae gwybodaeth eithriedig yn golygu gwybodaeth sy'n dod o fewn y categorïau (yn dibynnu ar unrhyw amod) yn yr Atodlen isod.

NODYN: Nid yw gwybodaeth yn eithriedig os yw'n ymwneud â datblygiad arfaethedig y gall yr awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio i'w hun o dan reoliad 3 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.

Mae'r rhifau yn dechrau ar 12 i adlewyrchu'r rhifau yn Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (rhifau 1 i 11 yn berthnasol i Loegr yn unig).

| **Rhif Paragraff** | **GWYBODAETH EITHRIEDIG** | **CYMHWYSTER** |
|---|---|---|
| 12. | Gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol. | Prawf lles y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod) |
| 13. | Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu hunaniaeth unigolyn. | Prawf lles y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod) |
| 14. | Gwybodaeth am faterion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (yn cynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno). | Nid yw gwybodaeth sy'n dod o dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig yn rhinwedd y paragraff hwnnw os oes angen iddo gael ei gofrestru o dan -.<br>y Ddeddf Cwmnïau, 1985;<br>Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974;<br>Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992;<br>Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978;<br>Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986; neu<br>Deddf Elusennau 1993. |

| **Rhif Paragraff** | **GWYBODAETH EITHRIEDIG** | **CYMHWYSTER** |
|---|---|---|
| | | Prawf lles y cyhoedd yn berthnasol<br>(gweler isod) |
| 15. | Gwybodaeth sydd a wnelo ag unrhyw ymgynghoriadau neu drafodaethau, neu rai arfaethedig, mewn perthynas ag unrhyw fater cysylltiadau llafur a gyfyd rhwng yr Awdurdod neu un o Weinidogion Cymru neu Weinidog y Goron a gweithwyr yr Awdurdod neu ddeiliad ei swyddi | Prawf lles y cyhoedd yn berthnasol<br>(gweler isod) |
| 16. | Gwybodaeth y gellid cynnal hawliad o fraint proffesiynol gyfreithiol mewn perthynas â hi mewn achos cyfreithiol. | |
| 17. | Gwybodaeth sy’n datgelu fod yr Awdurdod yn bwriadu:<br>(a) rhoi o dan unrhyw ddeddfiad hysbysiad sy’n gosod gofynion ar unigolyn neu sydd â’r effaith honno; neu<br>(b) wneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad | Prawf lles y cyhoedd yn berthnasol<br>(gweler isod) |
| 18. | Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw gamau a gymerwyd neu sydd i’w cymryd mewn perthynas ag atal, ymchwilio i neu erlyn trosedd. | Prawf lles y cyhoedd yn berthnasol<br>(gweler isod) |
| | *(Mewn perthynas â chyfarfod o bwyllgor safonau, neu is-bwyllgor o bwyllgor safonau, sy'n cael ei gynnull i ystyried* | Prawf lles y cyhoedd yn berthnasol |

| Rhif Paragraff | GWYBODAETH EITHRIEDIG | CYMHWYSTER |
| --- | --- | --- |
| | *mater a gyfeiriwyd dan ddarpariaethau adran 70(4) neu (5) neu 71(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000):*<br><br>18A. Gwybodaeth sy'n amodol ar unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd.<br><br>18B. Gwybodaeth sydd mewn unrhyw ffordd yn ymwneud â materion sydd a wnelont â diogelwch gwladol.<br><br>18C. Trafodaethau'r pwyllgor safonau neu o is-bwyllgor i bwyllgor safonau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato. | (gweler isod) |
| | | Nid yw gwybodaeth yn eithriedig os yw'n ymwneud â datblygiad arfaethedig y gall yr awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio i’w hun o dan reoliad 3 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 |

**15.11 <u>Prawf Budd y Cyhoedd:</u>**

15.11.1 Gwybodaeth sydd yn —

(a) dod o fewn unrhyw un o baragraffau 12 i 15, 17 a 18 uchod; a

(b) heb ei atal rhag bod yn eithriedig yn rhinwedd y 'cymwysterau' uchod,

yn wybodaeth eithriedig os a chyn hir, fel yn holl amgylchiadau'r achos, bod lles y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn gryfach na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

15.11.2 Y man cychwyn yw bod yna fudd cyhoeddus cyffredinol mewn rhyddhau ac mae’r awdurdod cyhoeddus yn gorfod penderfynu pa un ai mewn unrhyw achos penodol y byddai o fudd i’r cyhoedd i naill ai datgelu neu ddal y wybodaeth yn ôl.

15.11.3 Nid oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o beth yw budd y cyhoedd, ond mae’r canlynol wedi eu nodi fel rhai o’r ystyriaethau perthnasol:

(a) Mae yna wahaniaeth rhwng budd y cyhoedd a’r hyn sydd o ddiddordeb i’r cyhoedd.

(b) A yw yn ychwanegu at ddealltwriaeth a chyfranogiad yn y drafodaeth gyhoeddus o faterion y dydd?

(c) A yw’n hybu atebolrwydd a thryloywder gan awdurdodau cyhoeddus ar gyfer penderfyniadau sydd wedi eu gwneud ganddynt neu mewn gwario arian cyhoeddus?

(d) A yw’n caniatáu i unigolion a chwmnïau ddeall penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus sy’n effeithio ar eu bywydau?

(e) A yw’n dod â gwybodaeth sy'n effeithio ar iechyd cyhoeddus a diogelwch y cyhoedd i’r amlwg?

## 15.12 Eithrio mynediad y cyhoedd i adroddiadau

Os bydd y Swyddog Priodol yn gweld yn dda, gall y Cyngor wahardd mynediad gan y cyhoedd i adroddiadau sydd yn ei farn ef/barn hi yn ymwneud ag eitemau a fyddai, yn unol â Rheol 15.10, yn annhebygol o wneud y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Bydd adroddiadau o’r fath yn cael eu nodi “Nid i’w cyhoeddi” ynghyd â’r categori o wybodaeth sy’n debyg o gael ei ddatgelu ac eglurhad o’r ystyriaeth sy’n berthnasol mewn perthynas â’r prawf budd y cyhoedd.

## 15.13 Y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol

15.13.1 Cyfnod y rhaglen gwaith i’r dyfodol

Bydd rhaglen gwaith i'r dyfodol yn cael ei pharatoi gan y Swyddog Priodol i ymestyn dros gyfnod o bedwar mis. Bydd yn cael ei ddiweddaru yn fisol.

15.13.2 Cynnwys y rhaglen gwaith i’r dyfodol

(a) Bydd y rhaglen gwaith i'r dyfodol yn cynnwys materion y mae'r Cabinet a’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a’r Cyngor llawn yn debyg o'u hystyried. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am:

(i) yr amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau sy'n ffurfio rhan o'r fframwaith ac sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor, a pha gorff sydd i'w hystyried;

(ii) yr amserlen ar gyfer ystyried unrhyw gynlluniau sy'n gyfrifoldeb i'r Cabinet;

(iii) unrhyw faterion unigol y mae'r Cabinet yn bwriadu ymgynghori arnynt cyn gwneud penderfyniad a'r amserlen ar gyfer ymgynghori a phenderfynu;

(iv) rhaglen waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, i'r graddau y mae'n hysbys.

(b) Bydd y rhaglen gwaith i’r dyfodol yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael gan y Gwasanaethau Democrataidd.

**15.14 Ymgynghoriad ar Gynigion i’w Hystyried gan y Cabinet**

15.14.1 Dylid caniatáu o leiaf pedair wythnos yn y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol ar gyfer ymgynghori gyda’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac Aelodau Rhanbarth Etholiadol ble mae mater i gael ei ystyried gan y Cabinet ac nad yw’n un brys (fel y diffinnir isod) nac yn gyfrinachol nac wedi’i eithrio (fel y diffinnir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**).

15.14.2 Gall mater gael ei ystyried yn un brys ble nad oedd y digwyddiadau yr oedd yn delio â nhw yn cael eu rhagweld ar yr adeg y cafodd y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol diwethaf ei llunio ac mae angen gwneud penderfyniad o fewn pedair wythnos.

15.14.3 Bydd penderfyniad ond yn cael ei drin yn un brys os bydd y sawl sy’n gwneud y penderfyniad (os yw’n unigolyn) neu Gadeirydd y corff yn gwneud y penderfyniad yn derbyn cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol na allai gwneud y penderfyniad gael ei ohirio’n rhesymol. Os nad oes yna Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol, neu os nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gallu gweithredu, yna bydd cytundeb Cadeirydd y Cyngor neu, yn ei h/absenoldeb, Is-Gadeirydd yn ddigonol. Bydd unrhyw benderfyniadau a wnaed o dan y weithdrefn frys hon yn cael ei gofnodi fel un a wnaed yn absenoldeb ymgynghori yng nghofnod y penderfyniad.

## 15.15 Cofnod o Benderfyniad y Cabinet

15.15.1 Cofnod y penderfyniad

(a) Bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o bob penderfyniad Cabinet a wnaed gan y Cabinet a'i is-bwyllgorau (os unrhyw un) ac aelodau unigol a chydbwyllgorau â'u haelodau i gyd yn aelodau o'r Cabinet.

(b) Bydd y cofnod penderfyniad hwn yn cynnwys datganiad, ar gyfer pob penderfyniad, o'r canlynol:

i. Aelodau yn bresennol;
ii. unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd
iii. y penderfyniad a wnaed;
iv. y dyddiad y gwnaed y penderfyniad;
v. y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;
vi. unrhyw gysylltiad personol a gafodd ei ddatgan;
vii. fod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefeb i siarad;
viii. unrhyw ymgynghori a wnaed cyn y penderfyniad.

15.15.2 Paratoi'r cofnod penderfyniad

(a) Bydd y Swyddog Priodol neu ei gynrychiolydd yn mynychu unrhyw gyfarfod o'r Cabinet, is-bwyllgor o'r Cabinet neu gydbwyllgor neu gyd is-bwyllgor lle mae ei holl aelodau yn aelodau o Gabinet awdurdod lleol, a chyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod bydd yn llunio cofnod penderfyniad.

(b) Ble mae aelod unigol wedi gwneud penderfyniad y Cabinet,

(i) y bydd aelod gynted ag y bo'n ymarferol rhesymol yn hysbysu'r Swyddog Priodol neu ei g/chynrychiolydd am y penderfyniad a wnaed ac yn darparu'r wybodaeth a nodwyd ym mharagraff 14.15.1 (b) uchod ac yn rhoi cyfarwyddyd iddo/iddi lunio cofnod penderfyniad;

(ii) os oes gan yr aelod unigol gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn y penderfyniad posibl, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'r Cabinet.

(iii) ni fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu nes bydd y cofnod o'r penderfyniad wedi cael ei lunio, yn amodol ar weithdrefn galw i mewn y Pwyllgor Craffu.

15.15.3 Cyhoeddi nodyn o holl gyfarfodydd y Cabinet a'i Bwyllgorau

(a) Bydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn trefnu i nodyn gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor o bob cyfarfod o'r Cabinet a'i

Bwyllgorau (os unrhyw un) gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn saith diwrnod o ddyddiad y cyfarfod o'r Cabinet neu ei Bwyllgorau (os unrhyw un).

(b) Bydd y nodyn yn cofnodi:

(i) yr Aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod;

(ii) unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd;

(iii) unrhyw gysylltiad personol a gafodd ei ddatgan;

(iv) holl benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod (ac eithrio unrhyw benderfyniadau a wnaed pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth gyfrinachol neu wedi ei heithrio yn cael ei hystyried); a

(iv) phenderfyniadau unrhyw bleidlais yn y cyfarfod (ac eithrio unrhyw benderfyniadau a wnaed pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth gyfrinachol neu wedi ei heithrio yn cael ei hystyried).

**15.16 <u>Penderfyniadau gan Aelod Unigol o'r Cabinet</u>**

15.16.1 <u>Mae'n Rhaid i Adroddiadau gael eu Cymryd i Ystyriaeth</u>

Ble mae Aelod unigol o'r Cabinet yn bwriadu gwneud unrhyw benderfyniad, yna ni fydd ef/hi yn gwneud y penderfyniad nes cymerir cynnwys adroddiad Swyddog i ystyriaeth.

15.16.2 <u>Darparu Copïau o Adroddiadau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu</u>

Drwy roi adroddiad o'r fath i unigolyn sy'n gwneud penderfyniad, bydd y sawl wnaeth baratoi'r adroddiad yn rhoi copi ohono i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol gynted ag sy'n rhesymol yn ymarferol a'i wneud ar gael yn gyhoeddus yr un pryd.

15.16.3 <u>Cofnod o Benderfyniad Unigol</u>

Bydd y rheolau cofnodi penderfyniad ym mharagraff **Error! Reference source not found.** yn berthnasol.

## 15.17 Mynediad Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i Ddogfennau

15.17.1 Hawl mynediad

Yn amodol ar 15.7.2 isod, bydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (gan gynnwys ei is-bwyllgorau) â hawl i gael mynediad i unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu dan reolaeth y Cabinet neu ei bwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud ag:

(i) unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o'r Cabinet neu ei bwyllgorau; neu

(ii) unrhyw benderfyniad a wnaed gan Aelod unigol o'r Cabinet.

15.17.2 Terfyn ar hawliau

Ni fydd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgor hawl i unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu wedi'i heithrio oni bai bod y wybodaeth yn berthnasol i gam neu benderfyniad sy'n cael ei adolygu neu ei graffu neu unrhyw adolygiad sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglen waith y pwyllgor neu is-bwyllgor hwnnw.

## 15.18 Hawliau mynediad ychwanegol i aelodau

15.18.1 Hawl mynediad

Bydd gan holl Aelodau hawl (heblaw ble mae gan Aelod gysylltiad sy'n rhagfarnu, mewn unrhyw fater) i archwilio unrhyw ddogfen sydd yn eiddo neu o dan reolaeth y Cabinet neu ei Bwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o gorff sy'n gwneud penderfyniad o'r Cyngor neu gan Aelod unigol o'r Cabinet.

15.18.2 Terfyn ar hawliau

Ni fydd gan aelod hawl i unrhyw ran o ddogfen lle:

(a) byddai'n datgelu gwybodaeth wedi ei heithrio yn dod o fewn paragraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; neu

(b) byddai'n datgelu cyngor ymgynghorydd neu gynorthwyydd gwleidyddol.

15.18.3 Natur Hawliau

Mae'r hawliau hyn gan Aelod yn ychwanegol at unrhyw hawl arall sydd ganddynt.

15.18.4 Hawliau Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i annerch y Cabinet

Pan fydd adroddiadau gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet, mae gan Gadeirydd (neu Is-Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hawl i annerch y Cabinet ac mae'n cael amser rhesymol i wneud hynny. Mae'n fater i Gadeirydd y Cabinet benderfynu faint o amser rhesymol y caniateir, gan gymryd i ystyriaeth pa mor bwysig a/neu gymhleth yw'r materion yn ogystal â'r angen i reoli rhaglen cyfarfod y Cabinet yn effeithiol.

**15.19 <u>Recordiad fideo/sain neu drosglwyddiad</u>**

Ni chaniateir unrhyw un ac eithrio'r Cyngor i wneud recordiad fideo neu recordiad sain na darllediad o gyfarfod y Cyngor a'i Bwyllgorau heb ganiatâd wedi'i fynegi gan y Cyngor.